# *Minecraft: Education Edition – Ein Taith*

Rydyn ni'n ffodus iawn yma yng Nghymru o gael mynediad at blatfform digidol Hwb, sy'n ein galluogi i fanteisio ar gynifer o wahanol adnoddau addysgu a dysgu, heb gostio dim i'r ysgol nac i'r dysgwyr. Buddsoddodd Llywodraeth Cymru £1.2 miliwn er mwyn i addysgwyr a 467,000 o bobl ifanc fanteisio ar ddefnyddio Office 365 a Minecraft: Education Edition drwy blatfform dysgu digidol Cymru, Hwb. Er mwyn gwneud yn fawr o'r potensial hwn, roedd angen canllawiau a chymorth ar addysgwyr ynglŷn â sut i ddefnyddio'r offer anhygoel yma i gyfoethogi profiadau dysgu dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Fe gysylltodd tîm Hwb ag Ysgol Gyfun Rhisga i holi a oedd yr ysgol eisiau cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi i greu grŵp o Ganolfannau Dysgu Minecraft Hwb ledled Cymru. Gofynnodd y Pennaeth i ni gymryd rhan, ac yn amlwg roedden ni'n llawn cyffro ynglŷn â'r syniad a'r cyfle gwych i gael profiad dysgu proffesiynol. Fy enw i yw Coran. Dw i newydd gymhwyso'n athro TGCh a Chyfrifiadureg. Enw fy nghydweithiwr yw Barri. Mae e'n Athro Arweiniol yn y Gymraeg. Mae'r ddau ohonon ni'n addysgwyr amser llawn yn Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga, ac rydyn ni'n danbaid dros dechnoleg a sut gellir ei defnyddio yn yr ystafell ddosbarth i gyfoethogi profiadau addysgu a dysgu.

Er ein bod yn llawn chwilfrydedd, roedd gennym ni rai amheuon. Gan fod y ddau ohonon ni'n siaradwyr Cymraeg, roedden ni'n awyddus i weld sut gallai Minecraft: Education Edition ein helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru, yn enwedig y Dimensiwn Cymreig. Aethom i weithdy Hyfforddi'r Hyfforddwr yng Nghaerdydd, y ddau ohonom yn nerfus ac yn gyffrous wrth ddechrau'r daith hon. Roedd Barri yn amheus ynghylch sut gallai hyn weithio mewn lleoliad addysg, ac roedd yn wyliadwrus, gan ei fod wedi dysgu o brofiad i fod yn feirniadol o ddulliau newydd a sicrhau bod dysgu wrth wraidd unrhyw dechnoleg a gaiff ei defnyddio yn y dosbarth. Roeddwn i newydd ddechrau yn fy rôl fel addysgwr yn yr ysgol, ac roeddwn i'n poeni y gallwn i gael fy llethu. Y pryder sy'n nodweddiadol o ddechrau mewn swydd newydd – ydw i'n gallu gwneud hyn?

**Clwb Minecraft Rhisga**

Dechrau'r daith Minecraft: Education Edition i ni oedd ffurfio clwb cyfoethogi ar ôl ysgol – **Clwb Minecraft Rhisga** (#RCCSClwbMinecraft). Wedi i gloch yr ysgol ganu am 3.15, fe gawson ni ein siomi ar yr ochr orau wrth weld cynifer o ddysgwyr yn sefyll y tu allan i'r drws! Roedd y dysgwyr yn amrywio o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 9, ac yn gymysgedd o fechgyn a merched. Fe gawson ni dipyn o sioc ar y cychwyn, ond roedd hi'n bwysig i ni gadw mewn cof mai'r dysgwyr yw'r arbenigwyr a'u bod nhw wastad yn mynd i wybod mwy na ni. Aethon ni ati i osod eu her gyntaf, sef **Gardd Cymru**. Roedden ni eisiau gwybod sut le oedd Cymru iddyn nhw. Beth mae bod yn Gymro neu'n Gymraes yn ei olygu iddyn nhw! Dyma nhw'n cymryd yr awenau gan fynd ati i rannu eu hunain yn grwpiau. Ac yn syth, fe allech chi weld y syniadau, y creadigrwydd a'r wybodaeth yn byrlymu ohonyn nhw! Fe gamodd y dysgwyr yn naturiol i esgidiau rheolwyr tîm, ymchwilwyr, adeiladwyr ac ati. Fe wnaethon ni gamu'n ôl a gwylio eu syniadau'n dod yn fyw drwy Minecraft: Education Edition, roedd yn amlwg eu bod yn ymgolli'n llwyr mewn creu ac archwilio eu ffordd o feddwl.

Wnaethon ni ddim sylweddoli tan yr wythnos ganlynol pa mor bwerus oedd yr adnodd addysgol yma. Tra'r oeddwn i'n eistedd yn fy ystafell ddosbarth un amser egwyl, daeth cnoc ar y drws. Dysgwr o'r clwb oedd yno, dysgwr sydd fel arfer yn dawel a gwylaidd iawn. *"Miss, fydd hi'n iawn i mi dynnu lluniau o'ch ystafell ddosbarth?"* Roeddwn i wedi drysu braidd ar y dechrau, hyd nes iddo esbonio ei fod yn ymchwilio i'w waith adeiladu **Gardd Cymru**. Roedden nhw wedi penderfynu'n annibynnol eu bod am ail-greu eu hysgol yn Minecraft: Education Edition, ac wrthi'n gwneud y gwaith ymchwil!

**Minecraft: Education Edition yn yr ystafell ddosbarth**

Trobwynt i ni fel addysgwyr oedd pan aethon ni ati i ddefnyddio her antur Minecraft: Education Edition a gynhyrchwyd yn fasnachol. Roedd yr adnodd yn sôn am ffoaduriaid, ac yn hytrach na dangos fideos ac erthyglau'n ymwneud â'r pwnc, bu modd i'r dysgwyr fyw bywyd ffoadur drwy gyfrwng Minecraft: Education Edition. Wrth iddyn nhw archwilio'r byd (yn llawn cyffro ein bod wedi caniatáu iddyn nhw

newid y gosodiadau i'r modd "Survival"), aethon nhw ati i roi cynnig ar bob tasg yn ofalus – fe wnaethon nhw ymgolli'n syth yn y byd a'r problemau mae ffoaduriaid yn eu hwynebu. Gofynnwyd i'r dysgwyr wneud penderfyniadau – sef penderfyniadau yr oedd bywyd eu cymeriadau Minecraft yn dibynnu arnyn nhw. O fynd ar gychod bach yn y gobaith o gyrraedd gwlad fwy diogel, i werthu eu heiddo gwerthfawr er mwyn cael bwyd i oroesi. Ychwanegodd y penderfyniadau yma at y profiad, gan eu helpu'n fawr i weld materion y byd go iawn o safbwynt gwahanol. Wrth drafod gyda'r dysgwyr beth oedd eu barn ynglŷn â'r profiad, dywedodd un dysgwr ei bod hi wedi teimlo fel ffoadur yn syth, a bod y profiad yn brofiad 'bywyd go iawn', yn cynnwys y straen a goblygiadau penderfyniadau. "*Aaaa, rwy'n gweld nawr pam mae'n cael ei alw'n Minecraft: **Education** Edition!",* bloeddiodd.

Fel ysgol, rydyn ni bellach wedi creu grŵp Arweinwyr Digidol newydd – sef Arweinwyr Digidol Minecraft Rhisga. Rydyn ni wedi gweld gyda'n llygaid ein hunain sut mae Minecraft: Education Edition nid yn unig yn tanio diddordeb dysgwyr mewn tasgau a gwersi, ond hefyd sut mae wedi annog dysgwyr i arddangos eu syniadau a dod yn fwy llafar, hyd yn oed, wrth archwilio'u syniadau. Fe wnaethon ni wobrwyo dau ddysgwr â'r bathodynnau 'Arweinydd Digidol Minecraft' cyntaf , oherwydd yn yr amser byr roedden ni wedi bod yn defnyddio'r adnodd yn yr ystafell ddosbarth, fe welon ni hyder y dysgwyr yma'n cynyddu wrth i'w sgiliau llythrennedd a rhifedd wella mewn ffordd wahanol.

Aros ar ôl ysgol yw'r peth olaf rydych chi eisiau ei wneud weithiau, a chithau wedi cael diwrnod caled yn addysgu. Ond mae'r Clwb Minecraft yn gallu codi eich calon a rhyddhau creadigrwydd. Rydyn ni'n dysgu pethau newydd yn barhaus gan ein dysgwyr, ac o dro i dro rydyn ni'n eistedd am oriau ar ôl y sesiynau yn cnoi cil ar feddyliau a syniadau gwych y dysgwyr a'r potensial enfawr i gyfoethogi profiadau dysgu. Rydyn ni wastad wedi canolbwyntio ar nodau addysgol, er bod y clwb yn cael ei gynnal ar ôl ysgol. Dydy hyn ddim wedi digalonni ein dysgwyr mewn unrhyw ffordd, a nawr mae disgyblion Blwyddyn 10 yn dod i'r clwb i weithio ar eu sgiliau codio, gyda help y nodwedd 'Code Builder', a datblygu meysydd newydd yn ymwneud â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, fel meddwl yn gyfrifiadurol.

**Sesiynau Hyfforddi Addysgwyr ac adborth ar y sesiynau yma**

Efallai mai rhan fwyaf brawychus y daith fu cynnal y sesiynau hyfforddi deuddydd ar gyfer ein cydweithwyr proffesiynol. Fel y nodwyd eisoes, roedden ni fel addysgwyr yn amheus o Minecraft: Education Edition ac roedden ni'n poeni y byddai'n rhaid i ni argyhoeddi'r addysgwyr eraill y bydden nhw'n elwa arno.

Roedd nifer y bobl a gymerodd ran yn y tair sesiwn hyfforddi yn galonogol iawn, gydag addysgwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd yn mynychu. Gwych oedd cael cymysgedd o addysgwyr – o ddechreuwyr pur hyd at y rhai a oedd wedi dechrau defnyddio'r adnodd yn yr ystafell ddosbarth. Fel gydag unrhyw ddigwyddiad technolegol, fe gododd rhai problemau. Fel ysgol, does gennym ni ddim adnodd Wi-Fi cyhoeddus, felly roedden ni'n ddibynnol iawn ar yr awdurdod addysg lleol i sicrhau bod yr adnodd ar gael ar gyfer y digwyddiad yma. Wrth i'r sesiynau fynd yn eu blaen, roedden ni'n fwy parod ac yn fwy hyderus i ddelio â phethau a allai fynd o chwith, felly bu modd i ni gynllunio ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath. Rydyn ni wrth ein bodd gyda'r ffordd y cafodd y sesiynau eu cynnal, ac rydyn ni wedi cael adborth gwych:

- *"Mae gen i ddisgybl sydd â mudandod dethol – mae'n siarad yn ystod y Clwb Minecraft"*
- *"Diwrnod llawn gwybodaeth a gyflwynwyd yn hamddenol, sydd wedi gwella fy ngwybodaeth a'm hyder wrth ddefnyddio Minecraft: Education Edition."*
- *"Fe wnes i fwynhau pob eiliad. Roedd yn llawn gwybodaeth ac fe gawson ni amser i archwilio a chwarae – rhywbeth â helpodd fy nealltwriaeth yn fawr. Gallai unrhyw un ofyn cwestiwn ar unrhyw adeg."*

**Hyfforddiant yn ystod y cyfnod clo**

Wrth i dymor yr Haf ddechrau, fe wnaethon ni gynnal ein sesiynau hyfforddi drwy ddefnyddio Microsoft Teams, oherwydd COVID-19. Roedden ni mewn sefyllfa hollol wahanol, ac fe wnaethon ni sylweddoli y byddai'n anodd helpu'r cyfranogwyr wrth i ni symud at ran "ymarferol" y gweithdy. Er gwaethaf ein pryderon, aeth yr hyfforddiant rhagddo heb ormod o anawsterau ac fe gawson ni adborth gwych:

- *"Diolch. Rydw i wedi cael fy ysbrydoli i ddefnyddio Minecraft: Education Edition cyn gynted â phosibl!"*
- *Rydw i'n deall mwy am Minecraft ac wedi cael fy annog gan yr hyfforddwyr gwych i "chwarae o gwmpas gydag ef". Ac fe fydda i'n siŵr o wneud hynny. Rwy'n gallu gweld potensial mawr ar gyfer fy ngwaith gydag ysgolion."*
- *"Roedd darparwyr y cwrs yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd, o ystyried yr amgylchiadau. Roedd y cwrs wedi'i drefnu'n dda iawn. Wnaeth neb fynd i banig pan ddigwyddodd yr oedi. Addaswyd i'r amgylchiadau newydd yn dda. Roedd hi'n braf gweld enghreifftiau a gwrando ar brofiadau blaenorol o'r byd rydych chi wedi gweithio arno gyda'r dysgwyr. Rhannwyd gwybodaeth werthfawr. Rwy'n awyddus i sefydlu clwb Minecraft ar ôl i'r ysgol ailddechrau."*

**Casgliad**

Fe gawson ni'r cyfle i feithrin perthnasoedd gyda dysgwyr ac addysgwyr fel ei gilydd. Drwy gyfrwng y gweithdai, fe gawson ni'r pleser o gydweithio gyda James Protheroe, Swyddog Cymorth Prosiect Canolfan Ddysgu Minecraft, sydd wedi chwarae rôl bwysig yn ein taith Minecraft: Education Edition.



**Coran Jones**

Athrawes TGCh a Chyfrifiadureg – Ysgol Gyfun Rhisga

*"Fel y nodwyd eisoes, dyma fy mlwyddyn gymhwyso, ac mae cael y cyfle i ddefnyddio Minecraft: Education Edition fel adnodd wedi newid y ffordd rwy'n mynd i'r afael â chynifer o bynciau o fewn y cwricwlwm. Mae fy nosbarth wedi fod pynciau fel lles ac ymwybyddiaeth ofalgar wrth ddefnyddio amgylchedd hynod gyfarwydd Minecraft: Education Edition. Mae Minecraft: Education Edition wedi ein galluogi i gydweithio gydag addysgwyr o wahanol ysgolion a gwledydd – addysgwyr rydyn ni erbyn hyn yn falch o'u galw'n gyfeillion. Mae gallu gweithio ochr yn ochr i hyfforddi eraill, creu cynlluniau gwaith – rydyn ni bellach yn 'act ddwbl' go iawn!"*



**Barri Mock**

Athro Arweiniol yn y Gymraeg – Ysgol Gyfun y Rhisga

*"Mae ein taith wedi bod yn ddadlennol iawn, ac rwyf wedi symud o fod yn amheus iawn i fod yn hynod angerddol ynghylch y potensial enfawr mae Minecraft: Education Edition yn ei gynnig o ran darparu profiadau addysgol o safon ar gyfer dysgu. Drwy gymryd rhan yn y prosiect hwn, a manteisio ar gyfleoedd hyfforddi ychwanegol, rwy'n sicr bod Minecraft: Education Edition yn adnodd pwerus i bob oedran, ac mae modd ei ddefnyddio i ymdrin â nifer o bynciau a themâu trawsgwricwlaidd mewn ffordd ddiddorol a phwerus. Rwyf wedi dod yn rhan o gymuned Minecraft: Education Edition ac rwy'n mwynhau rhannu'r angerdd yma drwy greu gwersi, blogio ac adeiladu cymuned i rannu adnoddau yng Nghymru ac yn fyd-eang, a dim ond megis dechrau ydw i."*